Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Hysbysiadau hwylus

## Partneriaethau Cyhoeddus-Preifat a'r Fenter Cyllid Preifat (PPP a PFI)

Ionawr 2008

## Cyflwyniad

Nid oes diffiniadau swyddogol o'r termau PPP a PFI y cytunir arnynt, ac yn aml iawn, cânt eu defnyddio'n ymgyfnewidiol. Mae'r wybodaeth a ganlyn yn ceisio creu darlun o'r egwyddorion y tu cefn i'r termau hyn.

**Partneriaethau Cyhoeddus-Preifat (PPP)** – unrhyw fenter ar y cyd rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat er mwyn gwella effeithlonrwydd gwasanaethau sector cyhoeddus.

**Menter Cyllid Preifat (PFI)** – ffurf o PPP sy'n cynnwys defnyddio cyllid y sector preifat i ddarparu prosiectau a oedd yn cael eu darparu'n draddodiadol gan y sector cyhoeddus. Mae PFI yn golygu mai'r sector preifat sy'n berchen ar ac yn eu gweithredu, tra bod gan y sector cyhoeddus fwy o swyddogaeth.

Mae PFI yn ffurf o PPP sy'n cyfuno rhaglen caffael gyhoeddus (lle mae'r sector cyhoeddus yn prynu eitemau cyfalaf gan y sector preifat), â ffurf estynedig o gontractio allan (lle mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu contractio gan y sector preifat). Mae'r partner sector preifat yn casglu'r cyllid i ariannu'r prosiect, fel arfer drwy gymysgedd o gyllid i ariannu dyledion a chyllid ecwiti. Mae PFI yn newid rôl y sector cyhoeddus i raddau, o fod yn berchennog a darparwr i fod yn alluogwr a phrynwr.

Egwyddorion canllawiau PFI yw: bod y sector preifat yn cymryd risg yn erbyn colledion heb warant gan y trethdalwr ac y dylid dangos **gwerth am arian**[1] am unrhyw wariant gan y sector cyhoeddus.

## Trosolwg o PFI

Fel arfer, mae PFI yn golygu darparu asedau cyfalaf a gwasanaethau gweithredol sy'n cyd-fynd â'r ased hwnnw. Yn y modelau mwyaf cyffredin, mae'r sector preifat yn dylunio, adeiladu, ariannu a gweithredu (DBFO), neu'n dylunio, adeiladu, cynnal ac ariannu (DCMF) cyfleusterau, a hynny'n seiliedig ar fanyleb a bennir gan y sector cyhoeddus. Nid yw'r sector cyhoeddus yn berchen ar yr ased, ond yn diffinio lefel y gwasanaeth y mae'r partner

[1] **Gwerth am arian** – y graddau y gellir cyflawni amcanion mewn perthynas â chostau; nid yw hyn yr un peth â fforddiadwyedd.

sector preifat i'w ddarparu yn gyfnewid am daliad refeniw, y **tâl unedol** (gweler y blwch isod). Os yw'r corff sector preifat yn methu â chyrraedd y safonau y cytunwyd arnynt, mae'n colli elfen o'r tâl unedol nes bydd safonau'n gwella. Pan ddaw'r contract i ben, caiff perchnogaeth o'r ased un ai ei throsglwyddo i'r sector cyhoeddus, neu bydd yn parhau gyda'r sector preifat, yn ôl telerau'r contract. Felly, mae unrhyw brosiect PFI yn ddibynnol ar y contract a ddefnyddir, yn ogystal â pharodrwydd y ddau barti i'w orfodi.

### Tâl Unedol

Defnyddir y tâl unedol i dalu am wasanaethau, rheoli cyfleusterau a chynnal a chadw dros gyfnod y contract, yn ogystal ag ymgorffori elfen o iawndal ar gyfer y trosglwyddo risg, os yw'n briodol. **Ni ddylid edrych ar y tâl unedol fel taliad am yr ased cyfalaf sy'n gysylltiedig â'r prosiect PFI; rhaid ystyried elfennau eraill sydd wedi'u cynnwys yn y tâl unedol yn ogystal.**

## Prosiectau PFI

Yn ôl Cronfa Ddata Prosiectau Partnerships UK, **ymgymerwyd â 798 o brosiectau PFI yn y Deyrnas Unedig hyd yma, gyda gwerth cyfalaf o £58 biliwn**. Mae tabl 1 yn cynnwys manylion am ddosraniad y prosiectau hyn rhwng gwledydd y Deyrnas Unedig a manylion am eu gwerth cyfalaf. Dylid nodi bod ffigurau'r Deyrnas Unedig yn cynnwys prosiectau sydd heb eu datganoli yng Nghymru a'r Alban a gomisiynwyd gan adrannau o Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn cynnwys 13 o brosiectau sydd â chyfanswm gwerth cyfalaf o £661 miliwn.

**Tabl 1: Prosiectau cyllid preifat yn y Deyrnas Unedig hyd yma**

| | Nifer y prosiectau | % o'r prosiectau | Gwerth Cyfalaf (*£m*) | % o'r Gwerth Cyfalaf | Poblogaeth | Gwerth Cyfalaf y pen (*£m*) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Lloegr | 602 | 75 | 50,240 | 87 | 50,762,900 | 990 |
| Yr Alban | 107 | 13 | 5,121 | 9 | 5,116,900 | 1,001 |
| Cymru | 35 | 4 | 607 | 1 | 2,965,900 | 205 |
| Gogledd Iwerddon | 41 | 5 | 1,048 | 2 | 1,741,600 | 602 |
| Prosiectau sydd heb eu datganoli yng Nghymru/Yr Alban(1) | 13 | 2 | 661 | 1 | Amh. | Amh. |
| Y Deyrnas Unedig(2) | 772 | 97 | 57,016 | 99 | 60,587,300 | 941 |
| **Cyfanswm y Deyrnas** | **798** | **100** | **57,677** | **100** | **60,587,300** | **952** |

**Ffynhonnell:** Partnerships UK a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol
Nodyn: Ceir anghysondebau yn y cyfansymiau oherwydd talgrynnu.
(1) Nid oes prosiectau o'r fath yng Ngogledd Iwerddon.
(2) Ac eithrio prosiectau a gomisiynwyd gan adrannau o Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn y gwledydd datganoledig.

## PFI yng Nghymru

Mae 35 o brosiectau PFI yng Nghymru (heb gynnwys y rhai sydd heb eu datganoli) gyda chyfanswm gwerth cyfalaf o £607 miliwn. Mae dwy rownd gwneud cais am gredydau PFI[2] wedi bod yng Nghymru (1997 a 1999) i gynorthwyo prosiectau awdurdodau lleol. Mae'r holl brosiectau PFI sy'n weithredol o fewn awdurdodau lleol yng Nghymru ar hyn o bryd yn deillio o'r rowndiau hyn. Lluniwyd y canllawiau ar gyfer y prosiectau hyn gan y Swyddfa Gymreig.[3]

Yn 2000, cynhaliodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ymgynghoriad i ddatblygiad PPP/PFI yng Nghymru. O ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn, amlinellwyd y cynigion a ganlyn;

- Datblygu'r Uned Gyllid Breifat fel 'system glirio' ar gyfer arfer da;
- Datganiad clir ynghylch rowndiau gwneud cais am gredydau PFI yn y dyfodol mewn llywodraeth leol;
- Symleiddio'r fiwrocratiaeth sy'n gysylltiedig â PFI; a
- Buddsoddi mewn datblygu fframwaith strategol ar gyfer datblygu prosiectau PPP/PFI yng Nghymru[4].

Ym mis Gorffennaf 2003, cyhoeddodd y Gweinidog dros Gyllid (Sue Essex) yn y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus[5], na fyddai unrhyw rowndiau pellach ar gyfer llywodraeth leol i wneud cais am PFI yn cael eu cynnal o ganlyniad i'r system fenthyca darbodus[6].


Yn y ddogfen, *Cymru'n Un: Rhaglen flaengar ar gyfer llywodraethu Cymru*,[7] a gyhoeddwyd yn 2007, nodwyd na fyddai PFI yn cael ei ddefnyddio mwyach yn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru.

Mae ffigur 1 yn dangos proffil o'r farchnad gyllid preifat yng Nghymru. Mae mwyafrif y prosiectau yn y sectorau addysg a iechyd. Fodd bynnag, y sector trafnidiaeth sy'n cael y mwyaf o gyllid, a'r prif reswm dros hyn yw bod y prosiectau hyn yn dueddol o fod yn fawr a drutach.

---

[2] **Credydau PFI** – mae'r credydau hyn yn cynrychioli ymrwymiad ar ran y Llywodraeth i ddarparu lefel benodol o gymorth refeniw i awdurdod lleol o dan *Reoliadau Llywodraeth Leol (Cyllid Cyfalaf) 1997*.
[3] *Local Government in Wales and the Private Finance Initiative: An explanatory note on PFI and Public/Private Partnerships in local government*. Y Swyddfa Gymreig. (1999).
[4] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Papur ymgynghori ar Bartneriaethau Cyhoeddus-Preifat a'r Menter Cyllid Preifat (PPP/PFI) yng Nghymru*, 2000.
[5] **Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, 9 Gorffennaf 2003**
[6] **Benthyca darbodus** – mae benthyca darbodus yn caniatáu i awdurdodau lleol fenthyca ar gyfer buddsoddi cyfalaf heb orfod cael caniatâd gan y llywodraeth.
[7] *Cymru'n Un: Rhaglen flaengar ar gyfer llywodraethu Cymru.* (Mehefin 2007).
**http://cymru.gov.uk/strategy/strategies/onewales/onewalesw.pdf?skip=1&lang=cy**

**Ffigur 1: Prosiectau yn ôl sector – Cymru**




## Gwerthuso PFI

Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi cyhoeddi nifer o adroddiadau ar brosiectau unigol (er nad oes yr un o'r prosiectau'n benodol i Gymru), sydd ar gael ar ei gwefan.[8]

Canfu adroddiad diweddar gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ynghylch rheoli newidiadau mewn contractau PFI[9], er bod digon o hyblygrwydd ynghlwm â PFI, nad yw hi'n bosibl cael gwerth am arian pan gaiff newidiadau eu gwneud i'r contract.

Mae Trysorlys Ei Mawrhydi wedi cyhoeddi canllawiau ar gyfer prosiectau newydd sy'n nodi arfer da wrth reoli newid. Yn adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ceir argymhellion sy'n cyd-fynd â'r canllawiau hyn, sydd wedi'u hanelu at brosiectau PFI gweithredol.

[8] Adroddiadau Gwerth am Arian y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. http://www.nao.org.uk/publications/vfmsublist/index.asp?type=vfm

[9] *Making Changes in Operational PFI Projects*. Gan y Distain a'r Archwilydd Cyffredinol. HC 205 Sesiwn 2007-2008. (17 Ionawr 2008). http://www.nao.org.uk/publications/nao_reports/07-08/0708205.pdf

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag **Dr. Eleanor Roy** o Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau (**Eleanor.Roy@wales.gov.uk**)

I gael rhagor o wybodaeth am y pynciau a ganlyn, cliciwch ar y linc.

- Uned Cyllid Preifat, Trysorlys Ei Mawrhydi. **http://www.hm-treasury.gov.uk/documents/public_private_partnerships/ppp_index.cfm**
- Trysorlys Ei Mawrhydi. Rhestr o'r prosiectau. **http://www.hm-treasury.gov.uk/documents/public_private_partnerships/ppp_pfi_stats.cfm**
- Partnerships UK. **http://www.partnershipsuk.org.uk/**
- Cronfa Ddata Prosiectau PUK. **http://www.partnershipsuk.org.uk/projectsDatabase/projects-dbase.asp**
- Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Fframwaith Gwerthuso Cyllid Preifat **http://www.nao.org.uk/practice_areas/private_finance/evaluation.htm**
- Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Cronfa Ddata Argymhellion PPP a PFI. **http://www.nao.org.uk/practice_areas/private_finance/recommendations.htm**
- *The Private Finance Initiative & Public Private Partnerships*. Papur gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau (Ionawr 2008) (Saesneg yn unig)

Rhestr lawn o **Hysbysiadau hwylus**

**MRS 08/0307 Dr. Eleanor Roy**

**Caiff papurau briffio Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau eu llunio er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Gall yr awduron drafod cynnwys y papurau hyn gydag Aelodau a'u staff ond ni allant gynghori aelodau'r cyhoedd. Rydym yn croesawu sylwadau ar ein papurau briffio a dylid anfon y rhain at Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd CF99 1NA neu anfonwch e-bost at MembersLibrary@wales.gov.uk**